Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Brynaman
# Brynceunant
# Brynamman
# Rhydaman
# Sir Gaerfyrddin
# SA18 1AH

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 18/08/2015**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Brynaman wedi ei lleoli ym mhentref Brynaman ac fe'i cynhelir gan awdurdod lleol Caerfyrddin. Mae'n gwasanaethu'r pentref yn bennaf, ond hefyd yn derbyn lleiafrif o ddisgyblion o'r tu hwnt.

Mae cyfanswm o 289 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol, gan gynnwys 48 o blant meithrin amser llawn. Derbynia'r ysgol y disgyblion yn y tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed. Mae iddi 14 dosbarth, gyda thri o'r dosbarthiadau hynny yn cynnwys disgyblion o fwy nag un oedran.

Mae tua 56% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n dod o gefndir ethnig lleiafrifol neu gymysg. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn dysgu'r Saesneg fel iaith ychwanegol.

Mae tua 22% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim ac mae 52% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol. Mae 9 disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Mae'r pennaeth yn ei swydd ers Medi 1997 ac fe arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn Ebrill 2009.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Brynaman yn 2014-2015 yw £3,528. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Sir Gaerfyrddin yw £9,977 a'r lleiafswm yw £3,325. Mae Ysgol Brynaman yn safle 71 o'r 95 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Rhagorol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Rhagorol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn rhagorol oherwydd

- Bod rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn o'u man cychwyn, gan alw i gof ddysgu blaenorol a chaffael gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau newydd yn llwyddiannus
- Bod medrau siarad a gwrando y rhan fwyaf o ddisgyblion yn ardderchog
- Bod bron pob disgybl yn dangos balchder yn eu gwaith ysgrifenedig, a bron yn ddieithriad, yn cyflwyno eu gwaith yn daclus, gyda llawysgrifen aeddfed a chyflwyniad graenus
- Bod rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu at ystod o ddibenion yn effeithiol iawn, ac yn ysgrifennu mewn ffurfiau amrywiol ar draws y cwricwlwm yn llwyddiannus
- Bod bron pob disgybl ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'r targedau yn eu cynllun addysg unigol, gyda llawer ohonynt yn gwneud cynnydd uwchlaw'r disgwyl
- Bod rhan fwyaf y disgyblion o allu uwch yn cyrraedd safonau uchel iawn yn eu medrau llythrennedd a rhifedd
- Bod bron pob disgybl yn ymroi'n llwyr i'w tasgau gan ddangos brwdfrydedd eithriadol ac yn cydweithio'n gytûn ac yn aeddfed iawn gan gadw'n ddiwyd ar dasg dros gyfnodau estynedig
- Bod safonau ymddygiad a hunanddisgyblaeth ardderchog mewn gwersi, ac o amgylch yr ysgol, sy'n gwneud cyfraniad sylweddol at greu ethos dymunol sy'n hyrwyddo dysgu effeithiol
- Bod athrawon a chymorthyddion yn cydweithio'n llwyddiannus er mwyn cynllunio rhaglenni dysgu hyblyg, ymatebol ac arloesol sy'n sicrhau bod disgyblion yn derbyn ystod arbennig o brofiadau dysgu o ansawdd uchel
- Bod ansawdd yr addysgu yn gyson uchel ar draws yr ysgol

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn rhagorol oherwydd

- Bod arweinyddiaeth yr ysgol yn flaengar ac yn sicrhau darpariaeth effeithiol iawn a diwylliant cyson o godi safonau
- Bod arweinyddiaeth gref, sy'n canolbwyntio'n gadarn ar sicrhau addysgu o safon uchel, sy'n cael effaith amlwg a phositif ar ddeilliannau disgyblion
- Bod gan arweinwyr, staff a llywodraethwyr ddisgwyliadau uchel iawn ohonynt eu hunain, ei gilydd ac o safonau cyflawniad disgyblion
- Bod cydweithio effeithiol iawn ymysg y staff, ble maent yn gweithio'n gadarnhaol i ddatblygu ethos o rannu a chymryd cyfrifoldeb ar y cyd
- Bod arweinwyr yn defnyddio cryfderau a chymwyseddau staff unigol i sicrhau'r

effaith fwyaf

- Bod prosesau hunanarfarnu'r ysgol yn effeithiol iawn sy'n galluogi'r ysgol i adnabod, monitro a gwerthuso ei pherfformiad yn hynod llwyddiannus, ac o ganlyniad, mae'r ysgol yn adnabod ei hun yn drylwyr
- Bod yr arweinwyr yn adnabod blaenoriaethau gwella sy'n gwbl addas i anghenion yr ysgol, ac sy'n rhoi'r sylw pennaf i ddeilliannau disgyblion
- Bod cymhwysedd a gallu'r arweinwyr a'r staff i wneud gwelliannau a rhoi cynlluniau ar waith yn arbennig o dda
- Bod arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol iawn o arian o ffynonellau eraill i wella'r ddarpariaeth

## Argymhellion

A1 Sicrhau cysondeb yn adborth ysgrifenedig athrawon er mwyn dangos yn glir i ddisgyblion sut i wella eu gwaith

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaethau achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Rhagorol |
|---|---|

**Safonau: Rhagorol**

Mae medrau sylfaenol mwyafrif y disgyblion wrth gychwyn yn yr ysgol yn is na'r disgwyl. Er hyn, mae'r gwaith yn llyfrau'r disgyblion ac yn y gwersi yn dangos bod rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da iawn o'u man cychwyn. Maent yn galw i gof ddysgu blaenorol yn dda ac yn caffael gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau newydd yn llwyddiannus.

Ar draws yr ysgol, mae medrau siarad a gwrando y rhan fwyaf o ddisgyblion yn ardderchog. Mae safonau llafar Cymraeg a Saesneg disgyblion yn dangos cynnydd cadarn iawn dros eu cyfnod yn yr ysgol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn trafod eu gwaith yn fedrus gan ymestyn eu hymatebion i gwestiynau yn fywiog. Ar draws cyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn gwrando ar ei gilydd yn barchus, gan gyfrannu yn ymestynnol mewn sgyrsiau pâr a grŵp. Erbyn diwedd y cyfnod, mae rhan fwyaf y disgyblion yn mynegi syniadau'n eglur, gan ddefnyddio geirfa arbenigol ac enghreifftiau synhwyrol i gefnogi eu sylwadau yn fedrus iawn.

Mae bron bob disgybl yn dangos balchder yn eu gwaith ysgrifenedig. Bron yn ddieithriad, mae disgyblion yn cyflwyno eu gwaith yn daclus, gyda llawysgrifen aeddfed a chyflwyniad graenus. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, gall bron pob disgybl ysgrifennu brawddegau synhwyrol i wahanol bwrpasau, gan ddangos gafael gadarn ar atalnodi sylfaenol. Gall y mwyaf galluog ysgrifennu'n goeth gan ddefnyddio ystod ehangach o atalnodi a geirfa eang. Yng nghyfnod allweddol 2, mae eu gwybodaeth am nodweddion a rheolau iaith yn gynhwysfawr yn y ddwy iaith ac mae bron bob un yn atalnodi eu gwaith yn gyson effeithiol, sydd yn aml yn cryfhau a bywiogi eu gwaith ymhellach. Gall rhan fwyaf y ddisgyblion ysgrifennu at ystod o ddibenion yn effeithiol iawn, er enghraifft i hysbysu, esbonio ac wrth ddwyn perswâd. Maent yn ysgrifennu mewn ffurfiau amrywiol ar draws y cwricwlwm yn llwyddiannus, er enghraifft drwy lythyrau i nodi barn am gau sinema leol, a storïau creadigol yn gysylltiedig â'u gwaith am yr Ail Ryfel Byd. Ar frig yr ysgol, mae'r disgyblion yn cynllunio, drafftio a golygu eu gwaith, gan gynnwys defnyddio TGCh, yn effeithiol. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn gwella eu gwaith yn fedrus ac yn creu darnau estynedig dychmygus iawn.

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen gyda chywirdeb. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio ystod dda o strategaethau i ddarllen a deall testunau. Maent yn darllen yn gynyddol gywir a hyderus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf yn ddarllenwyr brwdfrydig, ac wrth ddarllen ar goedd, maent yn cymeriadu'n effeithiol gan ddefnyddio ystod o strategaethau darllen pwrpasol yn llwyddiannus. Gwnânt ddefnydd o'u medrau darllen i gywain gwybodaeth o lyfrau a thestunau amrywiol ac oddi ar wefannau yn effeithiol. Mae medrau brasddarllen llawer o ddisgyblion hynaf yr ysgol yn gyson dda.

Erbyn Blwyddyn 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn deall a defnyddio amrywiaeth o ddulliau er mwyn datrys problemau rhif. Maent yn casglu, cofnodi a dehongli data o ystod gynyddol o ffynonellau yn effeithiol, er enghraifft wrth greu siart bar am sawl milimetr o law a gofnododd y mesurydd glaw fesul diwrnod. Maent yn adnabod, trefnu a defnyddio darnau arian yn hyderus, ac yn canfod cyfansymiau a rhoi newid yn gywir. Wrth iddynt fynd drwy'r ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn adeiladu'n effeithiol ar y medrau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth flaenorol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn egluro canlyniadau eu gwaith cyfrifo yn glir, drwy ddefnyddio iaith fathemategol gywir. Maent yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn effeithiol mewn gwaith ymchwil, ac yn eu defnyddio'n llwyddiannus i gefnogi eu gwaith mewn gweithgareddau ar draws y cwricwlwm, fel hanes a gwyddoniaeth. Mae'r rhan fwyaf yn mesur yn gywir, ac yn defnyddio'r unedau perthnasol ar gyfer cofnodi, er enghraifft wrth greu modelau a dyluniadau mewn gwaith dylunio a thechnoleg.

Mae bron bob disgybl ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'r targedau yn eu cynllun addysg unigol, gyda llawer ohonynt yn gwneud cynnydd uwchlaw'r disgwyl. Mae'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd cadarn yn unol â'u gallu. Mae rhan fwyaf y disgyblion o allu uwch yn cyrraedd safonau uchel iawn yn eu medrau llythrennedd a rhifedd.

Yn y Cyfnod Sylfaen, dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant 5 disgwyliedig mewn medrau llythrennedd a datblygiad mathemategol wedi amrywio rhwng y 50% is a'r 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant uwch (deilliant 6) mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf yn gyson dros y tair blynedd diwethaf.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol yn y pedwar pwnc craidd wedi amrywio dros y pedair blynedd diwethaf. Mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, mae perfformiad yn tueddu i fod yn y 50% uwch neu'r 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mewn Cymraeg, mae perfformiad wedi amrywio rhwng y 25% isaf a'r 50% uwch. Yn ystod yr un cyfnod, mae perfformiad y disgyblion ar y lefel uwch wedi gosod yr ysgol bron yn gyson yn y 25% uchaf neu'r 50% uwch yn y pedwar pwnc craidd.

Nid oes patrwm arwyddocaol o wahaniaeth dros gyfnod yng nghyflawniad bechgyn a merched na rhwng disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim o'u cymharu â'u cyfoedion.

### Lles: Rhagorol

Ym mhob gwers, mae bron pob disgybl yn ymroi'n llwyr i'w tasgau gan ddangos brwdfrydedd eithriadol. Maent yn cydweithio'n gytûn gan ddatrys problemau yn effeithiol. Maent yn aeddfed iawn gan gadw'n ddiwyd ar dasg dros gyfnodau estynedig. Mae eu safonau ymddygiad a hunanddisgyblaeth mewn gwersi, ac o amgylch yr ysgol, yn ardderchog. Gwna hyn gyfraniad sylweddol at greu ethos dymunol sy'n hyrwyddo dysgu effeithiol.

Mae’r ffordd y mae’r disgyblion yn gwneud dewisiadau ynghylch sut y maent yn dysgu yn llwyddiannus iawn. Er enghraifft, mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn trafod testunau yn aeddfed a synhwyrol er mwyn helpu cynllunio eu gwaith a’u gweithgareddau, gan feddwl yn ofalus am y ffordd orau o fynd ati.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno. Mae gan y rhan fwyaf ohonynt ddealltwriaeth drwyadl o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ac o gadw'n heini.

Mae'r cyngor ysgol a’r pwyllgor eco yn weithgar ac yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod safbwyntiau eu cyd-ddisgyblion a'u syniadau. Maent yn cynllunio gweithgareddau ar gyfer hel arian tuag at elusennau ac yn trefnu gweithgareddau eraill, yn yr ysgol ac yn y gymuned, gan flaenoriaethu’r elw yn ofalus ar gyfer materion o bwys, er enghraifft wrth reoli’r ‘clwb ffilm’. Mae lleiafrif y disgyblion ar draws yr ysgol yn manteisio ar y blwch syniadau ac yn ymfalchïo yn yr hyn y maent wedi ei gyflawni i wella eu hysgol a’u hamgylchedd. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 6 yn barod am y cam nesaf yn eu haddysg. Mae’r rhaglen i gynorthwyo disgyblion mwy abl a thalentog wrth drosglwyddo i’r ysgol uwchradd yn effeithiol. O ganlyniad, mae disgyblion yn datblygu eu medrau personol, cymdeithasol ac emosiynol yn effeithiol iawn ac yn ymdopi’n dda iawn â throsglwyddo.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon, a dros y pedair blynedd diwethaf, mae presenoldeb disgyblion yn dda. O’u cymharu ag ysgolion tebyg dros y cyfnod hwn, mae presenoldeb disgyblion yn gosod yr ysgol ymhlith y 50% uwch hyd at 2013, gyda’r presenoldeb yn y 25% uchaf yn 2014.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Rhagorol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Rhagorol**

Mae’r athrawon a’r cymorthyddion yn cydweithio’n llwyddiannus er mwyn cynllunio rhaglenni dysgu hyblyg, ymatebol ac arloesol. Maent yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys gan addasu'r cynlluniau yn fedrus er mwyn diwallu anghenion y disgyblion yn greadigol iawn. O ganlyniad, mae’r disgyblion yn derbyn ystod arbennig o brofiadau dysgu o ansawdd uchel. Mae hyn yn arwain at gynnydd sylweddol mewn safonau a medrau disgyblion.

Mae’r ysgol, yn ei chyfanrwydd, yn darparu gwersi bywiog wedi eu seilio ar gynlluniau manwl sy’n uno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd â’r Cwricwlwm Cenedlaethol, addysg grefyddol a’r Cyfnod Sylfaen yn ddychmygus. Mae strwythur cytûn i gyflwyniad yr addysgu, gyda phwyslais effeithiol ar ddatblygu disgyblion gweithredol ac annibynnol. Mae’r dilyniant a’r parhad yn y cynllunio a’r addysgu ar gyfer datblygu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion, yn effeithiol iawn. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar gynnydd a chyflawniad disgyblion, er enghraifft yn eu medrau ysgrifennu.

Mae naws Gymreig gref i’r ysgol. Mae darpariaeth ar gyfer datblygu’r iaith Gymraeg yn gadarn, gyda’r staff yn fodel ieithyddol llwyddiannus. Mae’r dosbarthiadau yn hyrwyddo’r iaith gydag arddangosfeydd clir a lliwgar sy’n hybu’r disgyblion i ddatblygu geirfa a phatrymau brawddeg yn llwyddiannus iawn. Mae’r adnoddau

Cymraeg o safon uchel, gan gynnwys nifer eang o lyfrau darllen deniadol. Mae cyfleoedd helaeth i'r disgyblion ymweld ag atyniadau a safleoedd pwysig sy'n gysylltiedig â diwylliant a hanes yr ardal. Mae prosiect celfyddydol rhwng artist preswyl a'r disgyblion wedi llunio coeden deulu a murlun deniadol o straeon y Mabinogi, sydd yn cynyddu ddiddordeb y disgyblion yn y chwedlau traddodiadol yn effeithiol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad cynaliadwy yn dda ac yn amlwg yn weithgareddau'r pwyllgor eco. Er enghraifft, yn dilyn eu gwaith, mae'r athrawon a'r disgyblion yn hybu cynaliadwyedd, fel ailgylchu a magu dealltwriaeth am blannu a thyfu llysiau. Mae datblygiadau diweddar yr ardal allanol yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i hybu dealltwriaeth a phrofiadau'r holl ddisgyblion o faterion amgylcheddol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu dealltwriaeth disgyblion am ddinasyddiaeth fyd eang yn gynhwysfawr, gyda chyfleoedd pwrpasol i ddysgu am ddiwylliannau gwahanol ac ehangu eu gwybodaeth o rannau eraill o'r byd, trwy brosiectau gydag ysgolion mewn gwledydd tramor, a thrwy gasglu arian at achosion da ledled y byd.

**Addysgu: Rhagorol**

Ar draws yr ysgol, mae'r addysgu'n gyson dda gyda llawer o wersi yn dangos arfer ragorol. Mae strategaethau addysgu cytûn gan yr athrawon, sy'n cael effaith arwyddocaol ar safonau a chyflawniad disgyblion o'u mannau cychwyn. Mae awyrgylch dysgu brwdfrydig ym mhob dosbarth gyda pherthynas arbennig o dda rhwng y staff a'r disgyblion. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn gweithio'n hynod effeithiol fel tîm. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion ac maent yn defnyddio ystod goeth o ddulliau i ddatblygu medrau'r disgyblion, gan gynnwys y rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol a disgyblion o allu uwch.

Mae cyflymder y gwersi yn nodwedd gref o'r addysgu. Mae hyn yn sicrhau bod bron pob disgybl yn ymroi'n llwyr i'r tasgau â chymhelliant, ac yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig iawn. Mae'r athrawon yn annog y disgyblion trwy gyfeirio at ddysgu blaenorol a thrwy holi deallus. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn hyderus i fentro ac i ymgymryd â'r tasgau yn frwdfrydig ac yn annibynnol iawn.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi eu sefydlu'n gadarn drwy'r ysgol. Mae strategaethau blaengar ac effeithiol iawn yn gyson ymhob dosbarth, gyda bron pob disgybl yn trafod eu dysgu a'u camau ar gyfer gwelliant yn wybodus fel rhan naturiol o'u haddysg o ddydd i ddydd. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn adnabod y dull dysgu, a deall sut i ddysgu'n llwyddiannus. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn trafod eu dysgu eu hunain yn ddeallus iawn.

Mae athrawon yn rhoi adborth llafar cyson i ddisgyblion, sydd yn eu hannog yn fedrus i wella a mireinio eu gwaith. Mae pob darn o waith yn cael ei farcio yn drwyadl iawn gan yr athrawon, sydd yn canmol y disgyblion yn fanwl am y graddau y maent wedi bodloni'r dasg. Er hyn, nid yw ychydig iawn o'r sylwadau a wneir ar waith ysgrifenedig y disgyblion yn rhoi digon o arweiniad bob amser ar yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella.

Mae trefniadau trylwyr ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion. Mae'r wybodaeth yn cael ei dadansoddi a'i defnyddio'n effeithiol i fonitro cynnydd a darparu cymorth ychwanegol i'r disgyblion yn ôl y galw. Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn gynhwysfawr ac yn darparu darlun gwerthfawr o safonau a chyrhaeddiad eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn un fywiog iawn gyda threfn ragorol a disgwyliadau uchel o ymddygiad ac ymdrech gan bawb. Mae pwyslais eithriadol yn yr ysgol ar ddatblygu pob unigolyn, staff a disgyblion, hyd eithaf eu gallu.

Mae darpariaeth gynhwysfawr, o'r safon uchaf, yn cefnogi'r disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol ac yn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion statudol. Mae'r athrawon yn adnabod anghenion dysgu ychwanegol y disgyblion yn gynnar ac yn teilwra rhaglenni ymyrraeth effeithiol iawn. O ganlyniad, mae pob disgybl yn gwneud cynnydd da iawn o'u mannau cychwyn wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

Dan arweiniad y cydlynydd anghenion arbennig, mae'r cymorthyddion yn gweithio'n effeithiol i fireinio'r rhaglenni ymyrraeth ymhellach yn unol ag anghenion yr unigolion, er enghraifft drwy weithgareddau'r cynllun 'chwarae positif'. Mae'r rhaglenni hyn yn cynnwys targedau heriol a chymorth pwrpasol iawn ac yn cael effaith gadarnhaol iawn, gyda'r disgyblion yn cyflawni ymhell uwchlaw'r disgwyl yn dilyn yr ymyrraeth.

Mae pob cynllun unigol yn cael ei adolygu'n amserol ac mae'r rhieni yn cael gwybodaeth gynhwysfawr am ddatblygiad eu plentyn. Mae cydweithio agos gyda rhieni yn dylanwadu'n eithriadol ar les a safon gwaith disgyblion bregus.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd ardderchog er mwyn datblygu medrau cymdeithasol a moesol y disgyblion yn llwyddiannus iawn. Er enghraifft, mae dulliau hybu ymddygiad a chreu synnwyr o gyfrifoldeb cytûn gan athrawon, staff a'r pennaeth yn hyrwyddo egwyddorion sy'n helpu disgyblion i wahaniaethu rhwng yr hyn sy'n gywir a'r hyn sy'n anghywir. Mae darpariaeth dda gan yr ysgol er mwyn datblygu agweddau ysbrydol a diwylliannol disgyblion, er enghraifft drwy wasanaethau dyddiol ac ystod o brofiadau addysgol ysgogol. Mae gan yr ysgol drefniadau da ar gyfer hybu bwyta ac yfed yn iach. Mae'r amrywiaeth o weithgareddau a gemau ar ôl ysgol yn atgyfnerthu dealltwriaeth y disgyblion o sut i gadw'n heini.

Mae trefniadau'r ysgol i gydweithio â gwasanaethau arbenigol fel y therapydd iaith a lleferydd yn effeithiol, ac mae hyn wedi dylanwadu'n gadarnhaol iawn ar safonau a lles y disgyblion. Mae'r ysgol yn cael cefnogaeth effeithiol gan asiantaethau allanol, fel yr heddlu, sydd yn gwella lles y disgyblion yn fuddiol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol**

Mae ethos yr ysgol yn adlewyrchu'r awyrgylch croesawgar, hapus a hollgynhwysol. Mae hyn yn seiliedig ar weithredu polisïau sy'n parchu hawliau pob unigolyn o fewn cymuned yr ysgol, gan drin pawb yn gyfartal. Cyfranna'r ethos yn helaeth at lefelau presenoldeb a safonau ymddygiad ar draws yr ysgol.

Mae'r amgylchedd dysgu o ansawdd uchel. Mae’r ysgol yn ddychmygus iawn wrth wneud defnydd llawn o’r adeilad, er enghraifft gan ymestyn y gofod dysgu yn sylweddol i fodloni anghenion y disgyblion yn effeithiol. Mae ehangu’r mannau addysgu a dysgu yn y modd hwn wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth ddarparu amgylchedd dysgu ysgogol.

Mae tir helaeth o amgylch yr ysgol gydag ardaloedd pwrpasol yn cael eu defnyddio mewn modd effeithiol iawn. Mae’r ystod o adnoddau y tu allan i’r adeilad, ac yr ardaloedd dysgu pwrpasol oddi fewn yr adeilad, yn cyfrannu'n arwyddocaol at y cynnydd cadarn a wna rhan fwyaf y disgyblion o'u man cychwyn. Er enghraifft, mae ardal y goedlan, yr ardd amgylcheddol, y gerddi llysiau, ac ardal ‘pentre' bach' y Cyfnod Sylfaen i gyd yn cyfrannu at greu amgylchedd dysgu allanol o ansawdd uchel sy’n ysgogi disgyblion i gyflawni mewn awyrgylch diddorol a deniadol.

Mae ystod eang o adnoddau o ansawdd da i ymateb i anghenion dysgu'r disgyblion, fel offer TGCh, dewis eang o lyfrau darllen ac adnoddau dysgu pwrpasol. Mae adeiladau’r ysgol, a’i thir, yn ddiogel ac yn cael eu cynnal yn dda.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Rhagorol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Mae arweinyddiaeth yr ysgol yn flaengar ac yn sicrhau darpariaeth effeithiol iawn a diwylliant cryf a chyson o godi safonau.

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir, yn seiliedig ar yr arwyddair “Byw i’r presennol ac edrych i’r dyfodol”. Ei athroniaeth sylfaenol yw bod arweinyddiaeth gref, sy’n canolbwyntio’n gadarn ar sicrhau addysgu o safon uchel, yn cael effaith amlwg a phositif ar ddeilliannau’r disgyblion drwy’r ysgol. Mae wedi rhannu’r weledigaeth hon yn gynhwysfawr iawn â’r uwch dîm rheoli, holl staff yr ysgol, y llywodraethwyr a’r rhieni. O ganlyniad, mae’r ysgol yn cyflawni’r athroniaeth honno yn llwyddiannus iawn.

Mae strwythur staffio’r ysgol yn galluogi’r holl athrawon a’r staff cynorthwyol, i deimlo perchnogaeth dros bolisïau a dulliau gweithredu’r ysgol. Maent yn gweithio’n gadarnhaol i ddatblygu ethos o rannu a chymryd cyfrifoldeb ar y cyd, gan ddefnyddio cryfderau a chymwyseddau unigol i sicrhau'r effaith fwyaf. Mae ‘siarter y staff’ yn gosod canllaw defnyddiol a strwythur cadarn er mwyn sicrhau bod systemau’n rhoi ffocws pendant ar wella lles a safonau disgyblion, gan reoli amser staff yn effeithlon iawn. O ganlyniad, mae gan arweinwyr, staff a llywodraethwyr ddisgwyliadau uchel iawn ohonynt eu hunain, ei gilydd ac o safonau cyflawniad disgyblion. Un o effeithiau amlwg y broses hon yw cysondeb yr addysgu da a rhagorol ar draws yr ysgol, sydd wedi arwain yn glir at godi safonau disgyblion.

Mae gan y llywodraethwyr wybodaeth gadarn a dealltwriaeth drylwyr am berfformiad a systemau’r ysgol. Maent yn diweddaru eu gwybodaeth yn rheolaidd trwy fynychu hyfforddiant perthnasol. Maent yn gefnogol iawn i waith yr ysgol ac yn cydweithio’n agos ac yn effeithiol gyda’r arweinwyr i sicrhau cyfeiriad strategol clir. Trwy gyfarfodydd rheolaidd, ac ymweliadau cyson â’r ysgol, maent yn herio’r ysgol yn llwyddiannus i gynnal safonau ac i sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel.

Mae’r ysgol yn ymateb yn bositif i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae’r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd wedi ymsefydlu’n gadarn iawn mewn cynlluniau, ac mae’r ysgol wedi gweithredu’n gadarn i leihau effaith tlodi ac amddifadedd ar ddisgyblion bregus.

**Gwella ansawdd: Rhagorol**

Mae diwylliant o hunanarfarnu parhaus, sy’n canolbwyntio’n gadarn ar ddeilliannau disgyblion, wedi gwreiddio’n ddwfn ym mywyd bob dydd yr ysgol. Mae’n broses fyw ac effeithiol iawn sy’n galluogi’r ysgol i adnabod, monitro a gwerthuso ei pherfformiad yn hynod llwyddiannus. Mae systemau cadarn iawn i adolygu cynnydd, nodi meysydd ar gyfer eu gwella a chymryd camau effeithiol i’w cywiro. O ganlyniad, mae’r ysgol yn adnabod ei hun yn drylwyr ac yn mynd i’r afael â gwelliannau yn gyflym a llwyddiannus iawn.

Wrth i gyfarfodydd staff ac adrannol dalu sylw cyson i faterion cwricwlaidd ac addysgol, mae’r athrawon a’r staff i gyd yn cymryd rhan weithredol yn y broses o fonitro, gwerthuso a chynllunio gwelliant. Mae materion sydd angen sylw yn cael eu hadnabod yn gynnar, ac mae’r arweinwyr yn gweithredu’n gyflym i’w datrys.

Mae’r broses hunanarfarnu yn casglu a defnyddio tystiolaeth gadarn o ystod eang o ffynonellau synhwyrol. Mae'r rhain yn cynnwys data perfformiad cymharol yr ysgol, deiliannau trefniadau asesu mewnol, craffu ar lyfrau a chynlluniau gwaith, ac arsylwi gwersi creadigol iawn. Mae cyfraniad y llywodraethwyr i’r broses o graffu ar lyfrau a chynlluniau gwaith yn eu galluogi i herio’r ysgol yn effeithiol. Mae’r arweinwyr yn ystyried deilliannau ymweliadau gan swyddogion yr awdurdod lleol a’r consortiwm lleol yn ofalus, sy’n rhoi persbectif ehangach gwerthfawr.

Mae rhieni a disgyblion yn cyfrannu’n ystyrlon i’r hunanarfarniad trwy ymateb i holiaduron, ac mae’r ysgol yn holi barn y gymuned a phartneriaid eraill yn gynhwysfawr. Er enghraifft, yn dilyn cydweithio gyda chwmni lleol ar brosiect dylunio a thechnoleg i greu masgiau, bu trafodaeth rhwng yr ysgol a’r cwmni am effeithiolrwydd y prosiect a thrafod gwelliannau posibl.

Dan arweiniad y pennaeth a’r uwch dîm rheoli, mae’r ysgol yn adnabod blaenoriaethau gwella sy’n gwbl addas i anghenion yr ysgol, ac sy’n rhoi’r sylw pennaf i ddeilliannau disgyblion. Mae’r cynllun datblygu ysgol yn deillio’n uniongyrchol o’r broses hunanarfarnu ac yn manylu’n rhesymegol ar y prif flaenoriaethau. Mae’n ddogfen gryno a chlir gyda nifer realistig o flaenoriaethau i weithredu arnynt. Mae’r cynlluniau a’r camau gweithredu yn dyrannu cyfrifoldebau, gan gynnwys cyfrifoldeb monitro a gwerthuso effeithiolrwydd, yn glir. Mae pob cynllun wedi ei ariannu’n graff ac wedi ei osod o fewn fframwaith amser ymarferol.

Mae pwyslais cryf iawn yn yr ysgol rhwng yr effaith a gaiff yr arweinyddiaeth ar wella safonau a’r ddarpariaeth, ac yn treiddio drwy’r gwaith hunanarfarnu yn fedrus. Mae gallu’r ysgol i gynllunio a sicrhau gwelliant yn rhagorol. Mae cymhwysedd a gallu’r arweinwyr a’r staff i wneud gwelliannau a rhoi cynlluniau ar waith yn arbennig o dda. Mae hanes llwyddiannus iawn o reoli newid, gan fynd i’r afael ag argymhellion o arolygiadau blaenorol a sicrhau gwelliant parhaus yn erbyn blaenoriaethau heriol a osodwyd yn y cynlluniau datblygu blaenorol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae’r ysgol yn rhannu ei harfer dda ym myd arweinyddiaeth ac addysgu mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, ac mewn dalgylchoedd ar draws Cymru. Mae’n cyfrannu’n effeithiol i gynadleddau, gweithdai a hyfforddiant ar lefel genedlaethol, gan gynnwys adran addysg Llywodraeth Cymru a Chydbwyllgor Addysg Cymru. Mae hyn yn cryfhau cymhwysedd staff yr ysgol yn effeithiol iawn er mwyn sicrhau gwelliannau parhaus yn Ysgol Brynaman ac yn cyfrannu at greu ethos o ymchwilio a darparu addysgu a dysgu arloesol ymysg y staff.

Mae gan yr ysgol berthynas dda â rhieni. Mae cyfathrebu effeithiol yn sicrhau bod gwybodaeth berthnasol ar gael i rieni’n barhaol. Mae’r pennaeth yn cysylltu’n uniongyrchol gyda rhieni darpar ddisgyblion cyn i’w plant ddechrau yn yr ysgol, ynghyd â’r pecyn derbyn, sy’n sicrhau bod gwybodaeth ddefnyddiol yn cael ei throsglwyddo. Mae’r ysgol yn llwyddiannus iawn wrth gefnogi rhieni disgyblion bregus i sicrhau’r cyflawniad gorau posibl i’w plant; er enghraifft, drwy roi cefnogaeth glir ac adnoddau pwrpasol i rieni a disgyblion er mwyn gwella medrau llythrennedd a rhifedd a thrwy adnabyddiaeth gref y staff o anghenion disgyblion a theuluoedd gan greu ‘proffil un tudalen’ gwerthfawr.

O ganlyniad i’r arweiniad gwreiddiol gan staff yr ysgol, mae cydweithio a chynllunio effeithiol iawn wedi datblygu rhwng yr ysgol a'r ysgol uwchradd. Mae’r cynllunio ar y cyd yn sicrhau bod disgyblion yn derbyn arweiniad pwrpasol ac yn gwneud cynnydd clir yn y cyfnod nesaf o’u haddysg. Mae’r trefniadau pontio cwricwlaidd a lles yn hyrwyddo trosglwyddo effeithiol iawn i’r ysgol uwchradd. Er enghraifft, mae’r prosiect ‘Awyr Las’ o’r clwstwr o ysgolion cynradd yn Nyffryn Aman yn sicrhau llwyddiant parhaus i ddisgyblion mwy abl a thalentog yn arbennig drwy ddefnydd cyson o system olrhain electronig gytûn, sy’n golygu bod modd trosglwyddo data a monitro cynnydd disgyblion yn effeithiol. O ganlyniad i’r cydweithio hwn, mae disgyblion yn datblygu eu medrau personol, cymdeithasol ac emosiynol yn effeithiol ac yn ymdopi’n dda iawn â throsglwyddo.

Mae’r athrawon yn cydweithio’n effeithiol, ac yn cymryd rhan arweiniol, mewn cyfarfodydd safoni a chymedroli gydag ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae’r portffolios defnyddiol o’r cyfarfodydd hyn yn enghreifftio lefelau cyrhaeddiad yn gywir.

Mae perthynas dda iawn rhwng yr ysgol a’r cylch meithrin lleol. Mae ymweliadau gwerthfawr rhwng y naill sefydliad a’r llall, ac mae plant y cylch yn ymweld â’r dosbarthiadau meithrin yn yr ysgol yn rheolaidd bob tymor. Mae hyn yn paratoi darpar ddisgyblion yn dda ar gyfer dechrau’n amser llawn yn yr ysgol.

Mae cysylltiadau niferus â’r gymuned leol gan gynnwys rhai cysylltiadau effeithiol gyda busnesau lleol. Mae’r rhain yn cyfoethogi’r ddarpariaeth yn yr ysgol, ac yn ehangu profiadau disgyblion yn lwyddiannus. Er enghraifft, mae cydweithio gyda chwmni animeiddio wedi ehangu profiadau celf a dylunio a thechnoleg disgyblion dros nifer o flynyddoedd. Yn yr un modd, mae clybiau chwaraeon lleol wedi cyfoethogi profiadau disgyblion o chwaraeon ac addysg gorfforol yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol berthynas adeiladol â’r awdurdod lleol ac maent yn manteisio’n llawn ar y cytundebau sydd ar gael iddynt; er enghraifft, cefnogaeth rheoli arian, technoleg gwybodaeth ac anghenion dysgu ychwanegol.

**Rheoli adnoddau:  Rhagorol**

Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu hynod o effeithiol.  Mae diwylliant iach o gydweithio effeithiol rhwng y staff gyfan, sydd wedi cael ei feithrin a’i gynnal yn llwyddiannus ar draws yr ysgol.  Mae hyn i’w weld yn arbennig yng nghysondeb y dulliau addysgu ym mhob dosbarth, sy’n cael effaith bositif ar ansawdd y ddarpariaeth ac ar gyflawniad disgyblion.

Mae lefel staffio’r ysgol yn uchel o ystyried nifer y disgyblion.  Mae digon o athrawon i ateb gofynion y cwricwlwm ac i gwmpasu pob agwedd ar waith yr ysgol.  Mae’r arweinwyr yn arbennig o effeithiol wrth adnabod cymhwysedd, cryfder a diddordeb athrawon unigol ac, o ganlyniad, yn dyrannu cyfrifoldebau yn effeithiol iawn.

Mae gan yr ysgol brosesau rheoli perfformiad cadarn ac mae hyfforddiant defnyddiol yn cefnogi hyn yn llwyddiannus.  Mae datblygiad proffesiynol parhaus yr holl staff yn cysylltu'n glir â’r athroniaeth sy’n gyrru gweledigaeth yr ysgol.  Nodwedd arbennig o dda yw’r modd mae staff yn arsylwi ar ei gilydd, gan gynnwys gwneud ffilmiau fideo, er mwyn creu cyfleodd ystyrlon i drafod addysgu a dysgu gyda’r bwriad o wella’u hymarfer.  Mae hyn yn cyfrannu’n werthfawr tuag at gysondeb yn yr ymarferion da a rhagorol yn yr addysgu a’r dysgu ar draws yr ysgol.

Mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu ac mae'r trefniadau yn cael eu rheoli'n effeithiol.  Mae cynorthwywyr yn cefnogi'r athrawon yn effeithiol iawn ac yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i ddeilliannau disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae’r pennaeth, y llywodraethwyr a’r swyddog gweinyddol yn rheoli cyllideb yr ysgol yn dynn.  Maent yn gwneud penderfyniadau ariannu effeithlon i ateb anghenion yr ysgol.  Mae cynllunio ariannol ar sail y gyllideb flynyddol yn fanwl ac effeithiol, ac mae llif arian yn cael ei fonitro’n ofalus iawn.  Mae cyllideb ar gyfer gweithredu blaenoriaethau gwella’r ysgol wedi ei chlustnodi’n glir, ac yn cael ei defnyddio yn effeithiol i ymateb i anghenion penodol.  Mae hyn yn sicrhau cyflenwad da o adnoddau sy'n ymateb i anghenion y disgyblion.

Mae’r arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol iawn o arian o ffynonellau eraill i wella’r ddarpariaeth yn yr ysgol, er enghraifft grantiau i weithredu prosiectau i ehangu’r gofod dysgu a datblygu’r ardal allanol i fod yn amgylchedd dysgu gwerthfawr.  Mae’r ysgol wedi targedu arian y Grant Amddifadedd Disgyblion yn synhwyrol at ddisgyblion sy’n gymwys i dderbyn cinio am ddim, gan gynnwys disgyblion uwch eu gallu.  Mae’r grant yn bennaf yn ariannu cynorthwywyr dysgu i gefnogi datblygiad medrau sylfaenol a lles y disgyblion o fewn y dosbarth, neu mewn grwpiau i ymateb i anghenion penodol, er enghraifft i gynyddu hunanhyder disgyblion.

O ystyried safonau cyflawniad uchel y disgyblion ac ansawdd rhagorol yr addysgu a’r ddarpariaeth yn gyffredinol, mae'r ysgol yn rhoi gwerth rhagorol am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6692169 - Ysgol Gynradd Brynaman**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 278 | |
| Disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 22.4 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 26 | 35 | 34 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 84.6 | 91.4 | 88.2 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 2 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 26 | 35 | 34 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 84.6 | 97.1 | 88.2 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 38.5 | 57.1 | 47.1 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 26 | 35 | 34 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 84.6 | 94.3 | 94.1 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 38.5 | 40.0 | 44.1 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 26 | 35 | 34 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 92.3 | 100.0 | 97.1 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 38.5 | 74.3 | 79.4 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 1 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae’r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6692169 - Ysgol Gynradd Brynaman**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 278 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 22.4 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 27 | 35 | 26 | 32 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 88.9 | 82.9 | 100.0 | 93.8 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 1 | 1 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 27 | 35 | 26 | 32 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 88.9 | 85.7 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 48.1 | 31.4 | 42.3 | 40.6 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 1 | 2 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 27 | 35 | 26 | 32 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 77.8 | 65.7 | 92.3 | 81.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 2 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 25.9 | 20.0 | 34.6 | 37.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 | 2 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 27 | 35 | 26 | 32 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 92.6 | 82.9 | 100.0 | 93.8 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 1 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 48.1 | 28.6 | 42.3 | 40.6 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 1 | 2 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 27 | 35 | 26 | 32 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 92.6 | 82.9 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 48.1 | 31.4 | 46.2 | 40.6 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 1 | 2 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 123 | 123<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 123 | 123<br>100% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 123 | 122<br>99% | 1<br>1% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 123 | 122<br>99% | 1<br>1% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 123 | 122<br>99% | 1<br>1% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 123 | 123<br>100% | 0<br>0% | Rwy’n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 123 | 123<br>100% | 0<br>0% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 123 | 123<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 123 | 122<br>99% | 1<br>1% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 123 | 123<br>100% | 0<br>0% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 123 | 123<br>100% | 0<br>0% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 123 | 123<br>100% | 0<br>0% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 74 | 65 | 9 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 88% | 12% | 0% | 0% | | |
| | | 64% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 74 | 67 | 7 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 91% | 9% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 74 | 64 | 10 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 86% | 14% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 74 | 63 | 11 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 71 | 54 | 17 | 0 | 0 | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 76% | 24% | 0% | 0% | | |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 74 | 59 | 15 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 74 | 62 | 12 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 84% | 16% | 0% | 0% | | |
| | | 65% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 73 | 50 | 23 | 0 | 0 | 1 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 68% | 32% | 0% | 0% | | |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 73 | 58 | 15 | 0 | 0 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 79% | 21% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 70 | 54 | 15 | 1 | 0 | 4 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 77% | 21% | 1% | 0% | | |
| | | 61% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 74 | 63 | 11 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| | | 67% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 64 | 52 | 12 | 0 | 0 | 7 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 74 | 52 | 20 | 2 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 70% | 27% | 3% | 0% | | |
| | | 50% | 40% | 8% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 74 | 63 | 11 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 31% | 4% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 72 | 50<br>69% | 18<br>25% | 4<br>6% | 0<br>0% | 2 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 68 | 48<br>71% | 20<br>29% | 0<br>0% | 0<br>0% | 5 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 53 | 43<br>81% | 10<br>19% | 0<br>0% | 0<br>0% | 12 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 53% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 74 | 55<br>74% | 18<br>24% | 1<br>1% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 55% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 74 | 62<br>84% | 12<br>16% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Tony Bate | Arolygydd Cofnodol |
| Terwyn Tomos | Arolygydd Tîm |
| Michaela Leyshon | Arolygydd Lleyg |
| Nia Daly | Arolygydd Cymheiriaid |
| Nick Jones | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.